

Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty

Styffylu Poded y Ffaryngeal

Trosolwg o boded y Ffaryngeal:

Mae'r ffaryncs arferol yn gweithredu fel llwybr o'r geg i'r prif lwybrau anadlu a'r corn gwddf (oesoffagws). Wrth lyncu, mae bwyd yn mynd o'r geg i'r ffaryncs ac i'r oesoffagws uchaf. Gall gwendid yn wal gyhyr yr oesoffagws uchaf arwain at ffurfio sach bengaead o'r enw poded ffaryngeal. Os yw'r boded ffaryngeal yn achosi symptomau, gellir awgrymu llawdriniaeth i wella llyncu.

Llawdriniaeth Styffylu Poded y Ffaryngeal:

Nod y driniaeth hon yw atal bwyd rhag casglu o fewn y boded. Bydd tiwb gyda chamera ar y pen (endosgop) yn cael ei basio i mewn i'ch ceg i archwilio'r boded. Bydd y gwn styffylu wedyn yn styffylu ac yn torri'r band sy'n gwahanu'r boded o'r ffaryncs gan anelu at greu un ceudod cyffredin. Felly ni fydd unrhyw fwyd yn cronni yn y boded.

Cyngor wrth gael eich rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn atgyweirio ffaryngeal:

Deiet

Gofynnir i chi beidio â bwyta ac yfed am ychydig oriau yn syth ar ôl llawdriniaeth. Ar ôl hynny gofynnir i chi sipian dŵr a hylifau clir cyn symud ymlaen i fwyta bwyd meddal.

Poen

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn teimlo rhywfaint o anesmwythdra yn y gwddf am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y lawdriniaeth. Dylai poenladdwyr syml leddfu'r anghysur. Gan fod y driniaeth gael ei chyflawni drwy'r geg, efallai y bydd rhywfaint o gleisio/cracio ar eich gwefusau, eich tafod a'ch deintgig. Gallwch roi Vaseline ar unrhyw graciau ar eich gwefusau er mwyn cadw'r ardal yn llaith. Gall poen difrifol yn y frest/cefn/ysgwydd, tymheredd neu guriad calon sy'n rasio fod yn arwydd fod twll wedi ffurfio yn y ffaryncs/oesoffagws. Os byddwch yn cael unrhyw un o'r symptomau yma, dylech fynd i'ch Adran Achosion Brys agosaf.

Llyncu

Gan amlaf mae'r lawdriniaeth yn gwella llyncu ar gyfer cleifion. Weithiau gall cyflyrau eraill sy'n newid y broses o lyncu godi gan arwain at symptomau parhaus ar ôl llawdriniaeth.

Gwella

Dylech gymryd pethau'n ysgafn am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y lawdriniaeth. Os ydych yn gweithio, bydd angen 10 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith arnoch. Gellir rhoi nodyn salwch ar ôl i chi wrth i chi gael eich rhyddhau o'r ysbty.

Ysmygu

Fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r gorau i ysmygu gan fod hyn yn achosi llid i'ch gwddf.

Camau Dilynol:

Byddwch yn cael eich cyngori cyn i chi gael eich rhyddhau a oes angen apwyntiad dilynol arnoch ai peidio.

Os byddwch yn cael unrhyw un o'r symptomau yma, dylech fynd i'ch Adran Achosion Brys agosaf.

- Poen yn y frest neu'r cefn.
- Tymheredd uchel.
- Anawsterau neu boen difrifol wrth lyncu.
- Poen cynyddol nas gellir ei reoli gyda chyffuriau lladd poen syml.

GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY

09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):

Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion): Ward C0 01633493926.

Os bydd argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English"